

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# PRENTISIAETHAU.
# DEWIS DOETH.
# CYNGOR AR WNEUD CAIS

Prentisiaethau
Apprenticeships

Undeb Ewropeaidd
European Union

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

PRENTISIAETHAU.
DEWIS DOETH.

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Awgrym gwych i'ch helpu i gael prentisiaeth | TUDALENNAU 2 – 4 |
| Adnabod eich cryfderau | TUDALENNAU 5 – 6 |
| Cysylltu'ch hobïau â'ch sgiliau | TUDALEN 7 |
| Pwer ymchwil | TUDALENNAU 8 – 9 |


I gael rhagor o wybodaeth am brentisiaethau, ewch i **https://llyw.cymru/prentisiaethau-dewis-doeth**, neu i siarad â chynghorydd gyrfaoedd, ffoniwch **0800 028 4844**.

**/apprenticeshipscymru**

**@apprenticewales**


© Hawlfraint y Goron 2020

# AWGRYM GWYCH I'CH HELPU I GAEL PRENTISIAETH

## 1. GWNEWCH EICH YMCHWIL

Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau eich bod yn hollol barod i lenwi ffurflen gais neu i anfon eich CV. Mae'r llwybr prentisiaeth, y cwmni yr ydych yn gwneud cais iddo, y rhaglen benodol sy'n cael ei chynnig a'r cyfarwyddiadau ynghylch pryd a sut i wneud cais, i gyd yn bethau allweddol i edrych arnynt.

## 2. MANTEISIWCH AR UNRHYW FFAIR SWYDDI NEU FFAIR YRFAOEDD YN EICH ARDAL

Siaradwch â darparwyr hyfforddiant lleol i gael teimlad o'r hyn sy'n gweddu orau i chi fel gyrfa yn y dyfodol.

## 3. MIREINIWCH EICH CV

Eich CV yw'r allwedd i sicrhau cyflogaeth. Rhaid i chi ddangos pam bod eich sgiliau chi yn eich gwneud yn addas ar gyfer y brentisiaeth yr ydych yn gwneud cais amdani.

## 4. YSGRIFENNWCH LYTHYR EGLURHAOL BACHOG A CHOFIADWY

Mae llythyr eglurhaol yn esbonio'n fras pwy ydych chi, pam ydych chi'n meddwl eich bod yn addas ar gyfer y brentisiaeth a pham eich bod eisiau gweithio i'r cwmni penodol hwnnw. Mae hefyd yn gyflwyniad i'ch CV. Nid oes angen i'ch llythyr eglurhaol fod yn hir iawn, cofiwch ei gadw'n fyr, gan wneud yn siwr bod y sgiliau a'r profiadau sydd gennych yn bodloni'r swydd ddisgrifiad.

**Dylech gynnwys:**

- Cyfarchiad ffurfio fel Annwyl Syr/Fadam

# AWGRYM GWYCH I'CH HELPU I GAEL PRENTISIAETH

**Defnyddiwch baragraffau clir:**

- Agorwch y llythyr drwy esbonio pwy ydych chi a pham yr ydych yn ysgrifennu. Nodwch y brentisiaeth yr ydych yn gwneud cais amdani a rhowch reswm unigryw pam y byddech chi'n gaffaeliad i'r cwmni hwnnw.
- Esboniwch pam bod gennych ddiddordeb yn y sector hwnnw, a'r cwmni hwnnw yn benodol. Manylwch pam yr ydych yn credu y byddech yn gaffaeliad, gan ddangos brwdfrydedd a diddordeb gwirioneddol yn y cyfle.
- Soniwch amdanoch chi eich hunan yma – dewiswch yr holl sgiliau a'r rhinweddau sy'n golygi mai chi yw'r person perffaith ar gyfer y brentisiaeth hon, a'r cwmni hwn, gan ddefnyddio enghreifftiau o sut y gwnaethoch eu defnyddio'n llwyddiannus. Cyfeiriwch yn ôl at y disgrifiad swydd yma i ddewis y sgiliau a'r rhinweddau y mae'r cyflogwr yn edrych amdanynt.
- Diolchwch am amser y cyflogwr ee drwy nodi 'Diolch am fy ystyried i' neu 'Rwy'n edrych ymlaen at gael clywed gennych.'.
- Gorffennwch y llythyr yn ffurfiol, gan ddefnyddio "Yn gywir" os ydych yn gwybod enw'r person yr ydych yn anfon y llythyr ato, os nad ydych yn gwybod enw'r person, defnyddiwch 'Yr eiddoch yn gywir,".

## 5. GOFYNNWCH I RYWUN BRAWFDDARLLEN EICH LLYTHYR EGLURHAOL A'CH CV

Peidiwch ag anghofio gwneud hyn cyn anfon unrhyw beth.

## 6. DEFNYDDIWCH GYFEIRIAD E-BOST SYNHWYROL I GYSYLLTU

Defnyddiwch e-bost sy'n bersonol i chi gan y bydd yn helpu darpar gyflogwyr i'ch adnabod o'ch CV.

## 7. EDRYCHWCH I WELD OS OES NEGES AR EICH PEIRIANT ATEB YN AML

Peidiwch â cholli cyfle gwych am yrfa oherwydd eich bod wedi colli neges gan ddarpar gyflogwr, cysylltwch yn ôl cyn gynted ag y bo modd.

# AWGRYM GWYCH I'CH HELPU I GAEL PRENTISIAETH

## 8. BYDDWCH YN OFALUS AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Yn aml, bydd cyflogwyr yn gwneud eu gwaith ymchwil cyn rhoi cyfweliad/cynnig swydd.

## 9. MAE'N BWYSIG YMARFER EICH TECHNEG CYFWELIAD

Mae paratoi yn hollbwysig ar gyfer gwneud yn dda mewn cyfweliad.

- Edrychwch eto ar y disgrifiad swydd, y sgiliau allweddol a'r rhinweddau angenrheidiol a'ch cais chi. Edrychwch ar wefan y cwmni i geisio cael teimlad o'r hyn y mae'r cwmni'n frwd drosto, ac er mwyn cael syniad o pam yr hoffech gael prentisiaeth gyda'r cwmni
- Mae cael ymarfer cwestiynau gydag aelod o'r teulu neu ffrind yn bwysig. Os ydych yn dal yn yr ysgol, efallai y bydd modd i chi drefnu ffug gyfweliad. Mae rhestr o gwestiynau cyffredin ar gael yn: **https://gyrfacymru.llyw.cymru/cael-swydd/technegau-cyfweld/defnyddio-profiadau-bywyd-i-ateb-cwestiynau-cyfweliad**
- Canolbwyntiwch ar eich sgiliau a sut y maent yn gweddu i'r brentisiaeth. Meddyliwch am dri phennawd i'ch helpu:

**Cryfderau; beth ydych chi'n dda am ei wneud, a pham y bydd hyn o fudd i'r cwmni? Sicrhewch eich bod yn cysylltu eich sgiliau i'r disgrifiad swydd ar y pwynt hwn.**

**Profiad. Pa dasgau yr ydych wedi eu gwneud sy'n berthnasol i'r rôl?**

**Hyfforddiant. Pa hyfforddiant yr ydych wedi ei wneud sy'n berthnasol? Sut y bydd hyn o fudd i chi?**

- Paratowch gwestiynau i ofyn yn y cyfweliad. Defnyddiwch hyn fel cyfle i ddangos eich bod wedi ymchwilio. Gofynnwch am nodau tymor hir y cwmni a pha gyfleoedd a allai godi i ddatblygu eich rôl yn y cwmni, neu gofynnwch iddynt ddisgrifio diwrnod cyffredin yn y swydd.
- Gwnewch argraff gadarnhaol o'r cychwyn cyntaf, mae hynny'n mynd yn bell iawn. Gwisgwch yn smart, cyrhaeddwch yn gynnar a gwenwch, cofiwch bod rheswm pam y cynigiwyd cyfweliad i chi!



**CV YW EICH CYFLE I GREU ARGRAFF AR GYFLOGWR, I WERTHU EICH SGILIAU A’CH PROFIAD AC I DDANGOS EU BOD YN BERTHNASOL I’R RÔL**

PRENTISIAETHAU.
DEWIS DOETH.

# ADNABOD EICH CRYFDERAU

Gall prentisiaethau fod yn gystadleuol: mae llawer o bobl yn awyddus i fanteisio ar y cyfle i gael eu cyflogi ac ennill cymhwyster sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol ar yr un pryd. Mae ysgrifennu CV da yn rhoi cyfle i chi wneud argraff well nag eraill.

CV yw eich cyfle i greu argraff ar gyflogwr, i werthu eich sgiliau a'ch profiad ac i ddangos eu bod yn berthnasol i'r rôl brentisiaeth a gynigir. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod ysgrifennu CV a llythyr eglurhaol yn gallu bod yn anodd: mae gwybod beth yw eich cryfderau a sut i'w gwerthu yn hanfodol er mwyn llwyddo.

**Edrychwch ar y cryfderau a restrir isod a meddyliwch sut maen nhw'n berthnasol i chi a'ch sgiliau.**

☐ Addysgedig ☐ Aeddfed ☐ Amryddawn ☐ Amrywiol ☐ Amyneddgar ☐ Annibynnol ☐ Arloesol ☐ Awydd i lwyddo
☐ Awyddus ☐ Brwdfrydig ☐ Cadarnhaol ☐ Cefnogol ☐ Chwaraewr tîm ☐ Craff ☐ Creadigol ☐ Cwrtais
☐ Cydweithredol ☐ Cydwybodol ☐ Cyfathrebwr da ☐ Cyfeillgar ☐ Cyfrifol ☐ Cymen ☐ Cymwynasgar ☐ Cymwys
☐ Cyson ☐ Cywir ☐ Dadansoddol ☐ Dawnus ☐ Deall cyfrifiaduron ☐ Deallus ☐ Dibynadwy ☐ Digynnwrf
☐ Di-ildio ☐ Disglair ☐ Diwyd ☐ Doeth ☐ Dychmygus ☐ Dyfalbarhaus ☐ Dyfeisgar ☐ Dygn ☐ Dynamig
☐ Dysgwr cyflym ☐ Effeithiol ☐ Effeithlon ☐ Effro ☐ Egnïol ☐ Gallu addasu ☐ Gallu canolbwyntio ☐ Galluog
☐ Gonest ☐ Greddfol ☐ Gweithgar ☐ Gweithiwr cyflym ☐ Gwrthrychol ☐ Gwybodus ☐ Hyblyg ☐ Hyderus
☐ Llawn cymhelliant ☐ Llygad craff ☐ Manwl gywir ☐ Medrus ☐ Mentrus ☐ Mwynhau her ☐ Parod ei gymwynas
☐ Pendant ☐ Penderfynol ☐ Proffesiynol ☐ Prydlon ☐ Rhagoriaeth wrth gyfathrebu ☐ Rhagweithiol ☐ Rhesymegol
☐ Rhugl ☐ Sgiliau arwain ☐ Sgiliau rhyngbersonol ☐ Sylwgar ☐ Synnwyr cyffredin ☐ Teyrngar ☐ Trawiadol
☐ Trefnus ☐ Trylwyr ☐ Uchelgeisiol ☐ Ymarferol ☐ Ymdopi o dan bwysau ☐ Ymroddedig ☐ Ymroddgar ☐ Ystyriol

# ADNABOD EICH CRYFDERAU

Unwaith y byddwch wedi nodi rhai cryfderau personol, dewiswch y rhai rydych chi'n teimlo sydd gryfaf, gan geisio nodi pump o leiaf, a dechreuwch feddwl am enghreifftiau o adegau pan rydych chi wedi defnyddio neu arddangos y sgiliau hyn.

| GAIR ALLWEDDOL | ENGHRAIFFT |
|---|---|
| 1 | |
| 2 | |
| 3 | |
| 4 | |
| 5 | |


MAE HOBÏAU’N FFORDD WYCH O DDECHRAU MEDDWL AM EICH SGILIAU A’CH NODWEDDION.
PRENTISIAETHAU.
DEWIS DOETH.

# CYSYLLTU'CH HOBÏAU Â'CH SGILIAU

Mae hobïau'n ffordd wych o ddechrau meddwl am eich sgiliau a'ch nodweddion. Defnyddiwch y rhestr isod i roi rhai syniadau i chi

**Celf:** Creadigrwydd, llygad am fanylder, technegau, angerdd, amynedd, datblygu syniadau.

**Coginio:** Creadigrwydd, sylw i fanylion, amynedd, hunanfynegiant, amldasgio, gwneud penderfyniadau.

**Dawns:** Creadigrwydd, ymroddiad, gwydnwch, hyder, dyfalbarhad, cymhelliant, disgyblaeth, hunangred.

**Drama:** Hyder, hunanymwybyddiaeth, sgiliau cyflwyno, ymroddiad, gwydnwch, gwaith tîm, sgiliau cyfathrebu, creadigrwydd.

**Gemau cyfrifiadur:** Sgiliau cyfathrebu, dadansoddol, dyfeisgarwch a hyblygrwydd, sgiliau technegol a datrys problemau.

**Coluro, ffasiwn:** Creadigrwydd, dilyn tueddiadau, technegau ymchwil, sgiliau rhyngbersonol, hyder, sylw i fanylder.

**Cerddoriaeth:** Ymroddiad, creadigrwydd, gwaith tîm (os mewn band/cerddorfa), dyfalbarhad, cof, gwrando, cydweithredu, diwydrwydd, ymrwymiad a hyder.

**Darllen:** Dychymyg, sgiliau cyfathrebu, empathi, creadigrwydd a sylwgarwch.

**Chwaraeon/ffitrwydd:** Cymhelliant, cyfathrebu, angerdd, ymroddiad, gwaith tîm, arweinyddiaeth, rheoli amser ac ysbryd cystadleuol.

**Gwaith gwirfoddol:** Cymhelliant, ysgogiad, angerdd, ymroddiad, cyfathrebu, sgiliau rhyngbersonol, rhwydweithio, ymdeimlad o gymuned ac empathi.


MAE CYFLOGWYR WRTH EU BODD GYDAG YMGEISWYR SYDD WEDI TREULIO AMSER YN DEALL EU BUSNES, SY'N GALLU DANGOS PAM EU BOD EISIAU GWEITHIO YNO A'U BOD YN ANGERDDOL AM WNEUD HYNNY.
APPRENTICESHIPS.
A GENIUS DECISION.

# PŴER YMCHWIL

Ym mhob un o'n sgyrsiau gyda chyflogwyr am yr hyn y gall pobl ei wneud i gael y gobaith gorau o lwyddo wrth wneud cais am brentisiaeth, un peth sy'n codi dro ar ôl tro yw pwer ymchwil. Mae cyflogwyr wrth eu bodd gydag ymgeiswyr sydd wedi treulio amser yn deall eu busnes, sy'n gallu dangos pam eu bod eisiau gweithio yno a'u bod yn angerddol am wneud hynny.

Gall gwneud ychydig o ymchwil sylfaenol am gyflogwr hyd yn oed fod o gymorth mawr er mwyn i gais wneud argraff. Dyma ambell fan cychwyn y gallwch chi eu defnyddio wrth ymchwilio i brentisiaethau:

**Cam 1: Meddwl beth rydych chi'n ei hoffi**
Gwnewch restr o:

- Pa bynciau rydych chi'n eu mwynhau
- Pa weithgareddau allgyrsiol sydd o ddiddordeb i chi
- Yr hyn hoffech chi ei wneud â'ch dyfodol mewn gwirionedd

**Cam 2: Siarad â theulu a ffrindiau**
Mae siarad â theulu a ffrindiau'n ffordd wych o ddod i wybod am wahanol fathau o waith a beth allen nhw ei gynnig. Dyma ychydig o gwestiynau i chi fwrw iddi…

1. Beth ydych chi'n ei hoffi am ble rydych chi'n gweithio?
2. Sut wnaethoch chi gychwyn yn eich swydd bresennol?
3. Ydych chi'n gwneud y gwaith oeddech chi wedi meddwl y byddech chi'n ei wneud? Os na, pam?

# PŴER YMCHWIL

**Cam 3: Ymchwilio i gwmnïau**
Mae ymchwilio i fathau gwahanol o gwmnïau yn bwysig iawn. Mae gan lawer o bobl freuddwyd fawr o fod eisiau gweithio mewn cwmni maen nhw'n gwybod amdano. Os yw hyn yn wir yn eich achos chi, ewch i wefan y cwmni a dechrau ei ddilyn ar y cyfryngau cymdeithasol i weld pa gyfleoedd mae'n eu cynnig a'r math o werthoedd mae'n eu meithrin. Gallwch ddechrau edrych ar y cyflogwyr sy'n ymddangos ar y Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag hefyd

**Beth i chwilio amdano:**

- Dealltwriaeth o'r hyn mae'r sefydliad yn ei wneud
- Gwerthoedd y cwmni, beth mae'r sefydliad yn ei ddweud am ei weithwyr, ei randdeiliaid a'i nodau?
- Yw eu gwerthoedd yn unigryw o'u cymharu â chwmnïau eraill? Beth maen nhw'n ei ddweud am eu Rhaglenni Prentisiaeth? Ydyn nhw'n siarad am ddilyniant, cefnogaeth a gwerth prentisiaid i'w busnes?
- Beth mae eu gweithwyr yn ei ddweud amdanyn nhw? Oes ganddyn nhw ddyfyniadau neu dystebau gan brentisiaid yn sôn am sut brofiad yw gweithio yno?
- Dod yn gyfarwydd â hanes y cwmni. Gall hyn fod yn amhrisiadwy cyn cyfweliad.
- Ar ba brosiectau maen nhw'n gweithio, neu â pha gwmnïau maen nhw'n cydweithio?
- Edrychwch ar eu tudalen swyddi gwag. Edrychwch ar y math o rolau maen nhw'n eu cynnig trwy gydol y flwyddyn. Darllenwch y disgrifiadau swydd yn llawn, gan nodi unrhyw sgiliau maen nhw'n chwilio amdanyn nhw'n gyson.
- Yw eu tudalen swyddi gwag yn esbonio'r broses recriwtio? A oes opsiwn i gofrestru i dderbyn hysbysiadau pan fydd swyddi gwag newydd ar gael?
- Gall myfyrwyr ymweld â'r Academi Sgiliau hefyd, rhaglen hyfforddi cyflogadwyedd am ddim sy'n canolbwyntio ar feithrin sgiliau a hyder i ddewis yr yrfa iawn a dod o hyd i swydd, ewch i: **https://gyrfacymru.llyw.cymru/cael-swydd/academi-sgiliau-i-lwyddo**